Cysylltu Bywydau • Shared Lives
De Ddwyrain Cymru • South East Wales

**Gweithio mewn Partneriaeth:**

Caerffili, Casnewydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Bleenau Gwent a Torfaen

# Ydych chi'n berson positif a all wneud gwahaniaeth I fywyd rhywun?

---

## Allech chi rannu agweddau o'ch bywyd cartref, teuluol a chymundeol?

**Yn Cysylltu Bywydau, mae oedolyn gydag anghenion gofal neu gefnogaeth yn cael eu paru gyda gofalydd Cysylltu Bywydau cymharus.**

Mae gofalyddion y Cynllun yn rhannu eu cartref, eu teulu a'u bywyd cymunedol gyda'r person, gan roi cymorth iddynt ddatblygu a chadw sgiliau byw annibynnol, cyfeillion a chysylltiadau yn eu hardal leol.

O ganlyniad, mae llawer o'n gofalyddion yn datblygu perthynas tymor hir a gwerthfawr, gan groesawu'r person I mewn i'w teulu.

Mae ein gofalyddion yn dod o lawer o wahanol gefndiroedd ac meant yn dewis gofalu am amrywiaeth o resymau. Nid yw profiad ffurfiol yn angenrheidiol, ond mae brwdfrydedd, cymhelliant ac ymroddiad yn hanfodol.

## Sut mae'r cynllun yn gweithio?

Os ydych yn gwneud cais i ddod yn ofalydd, fe'ch cefnogir drwy broses asesu drylwyr a byddwch yn derbyn cefnogaeth gyfredol gan y tim Cysylltu Bywydau. Cynigir amrywiaeth o hyfforddiant I ofalyddion, ac fe'I talir am y lleoliadau y meant yn darparu.

## Gall ofalyddion Cysylltu Bywydau gynnig dri math o leoliad:

- **Tymor hir** –lle mae unigolyn yn byw gyda chi yn eich cartref.
- **Seibiant** – lle mae unigolyn yn aros gyda chi am gyfnodau byr.
- **Cefnogaeth Sesiynol** – lie mae unigolyn yn treulio ychydig oriau gyda chi ar y troy n rheolaidd.

## Beth allwn ni gynnig I chi?

- Hyblygrwydd I weithio o gartref
- Ról foddhaus a gwerthfawr
- Taliadau am y lleoliadau yr ydych yn eu darparu
- Cefnogaeth ac ymweliadau rheolaidd gan un o'n tím
- Cyfleoedd hyfforddi cyfredol


**I ddarganfod mwy am y Cynllun gallwch:**

**Ffionio:** 01443 864784

**e-bost:** lleolioedolion@caerffili.gov.uk

**Ewch I'n gwefan:** www.caerffili.gov.uk/cysylltubywydau